# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 2005

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Prif Weinidog*

**Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y berthynas rhwng Cymru a Lesotho. (WAQ44161)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o bobl iau o a) Caerdydd a b) Bro Morgannwg sydd wedi elwa ar nofio am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol. (WAQ33212)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A all y Gweinidog amcangyfrif nifer y bobl o Gaerdydd a Phenarth sydd wedi elwa ar gael mynediad am ddim i Amgueddfeydd Cenedlaethol ac Orielau Cymru. (WAQ44213)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o bobl hyn o a) Caerdydd a b) Bro Morgannwg sydd wedi elwa ar nofio am ddim. (WAQ44214)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r swm a'r ganran o'r gyllideb trafnidiaeth a wariwyd yn 2005/2006 ym mhob un o'r 5 rhanbarth etholiadol yng Nghymru. (WAQ44158)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynigion am gynllun tâl atal tagfeydd. (WAQ44159)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o arian y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ei fuddsoddi yn seilwaith trafnidiaeth De Caerdydd a Phenarth ers 2003. (WAQ44201)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o swyddi a grëwyd yn Ne Caerdydd a Phenarth ers 2003. (WAQ44202)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiweithdra yn Ne Caerdydd a Phenarth o gymharu â'r lefelau yn a) 1999 a b) 2003. (WAQ44203)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o fusnesau yn Ne Caerdydd a Phenarth sydd â mynediad i fand eang ers 2003. (WAQ44204)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol dosbarthiadau chwech yng Nghymru. (WAQ44163)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu Anghenion Addysgol Arbennig. (WAQ44164)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith a wnaiff i adolygu'r broses datganiadau. (WAQ44165)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pa un a oes cynlluniau i gyflwyno cig eidion Cymru i brydau ysgol yn ysgolion y De. (WAQ44166)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o adeiladau ysgolion y tu allan i oriau ysgol. (WAQ44167)

**William Graham (Dwyrian De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ganran o fyfyrwyr rhan amser ar gyrsiau addysg galwedigaethol sy'n cael eu noddi gan eu cyflogwyr. (WAQ44168)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar uno sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru. (WAQ44169)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y fenter brecwast am ddim. (WAQ44170)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes Addysg a Dysgu Gydol Oes yn awdurdod lleol Alun a Glannau Dyfrdwy. (WAQ44171)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o bobl sy'n cael Grant Dillad Ysgol Llywodraeth y Cynulliad yn Sir Ddinbych. (WAQ44172)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu Addysg Uwch yng Nghymru. (WAQ44173)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei chynlluniau gwario ar gyfer y chwe mis nesaf. (WAQ44174)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o fyfyrwyr o Dde Caerdydd a Phenarth sy'n mynychu Prifysgolion yng Nghymru. (WAQ44186)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Ganolfannau Dysgu Cynnar yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ44187)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ysgolion yn Ne Caerdydd a Phenarth sy'n cymryd rhan yn y cynlluniau peilot ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion. (WAQ44188)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynnydd a wnaed ers 2003 o ran gostwng y niferoedd mewn dosbarthiadau iau yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ44189)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o fyfyrwyr sy'n cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg yn Ne Caerdydd a Phenarth yn y flwyddyn academaidd hon. (WAQ44190)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella gwersi Cymraeg mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. (WAQ44215)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gynyddu nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg. (WAQ44218)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith strwythur y ffi drwyddedu newydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru. (WAQ44175)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith adolygiad Gershon ar effeithlonrwydd y sector cyhoeddus, ar lywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ44176)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag awdurdodau lleol am eu cyllid. (WAQ44177)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut mae'r Gweinidog yn sicrhau bod mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yn cael eu hariannu'n ddigonol. (WAQ44178)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa fesurau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo arfer effeithiol mewn cynghorau tref a chymuned. (WAQ44179)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i roi cymorth i Sir y Fflint i wella'r gwasanaethau lleol a ddarperir ganddo ers 2003. (WAQ44180)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei blaenoriaethau gwario ar gyfer y chwe mis nesaf. (WAQ44181)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu llywodraeth leol. (WAQ44182)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar resymoli Cynlluniau Awdurdodau Lleol yng Nghymru. (WAQ44183)

**Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):** Pa fesurau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu rhoi ar waith i hyrwyddo arferion effeithiol mewn cynghorau tref a chymuned. (WAQ44184)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amrywiaethau mewn gwariant ar gofrestru etholiadol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. (WAQ44185)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynnydd hysbys mewn twbercwlosis. (WAQ44155)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw newidiadau diweddar yn y rhaglen sgrinio ac imiwneiddio ar gyfer twbercwlosis, ac a wnaiff roi rheswm dros unrhyw newidiadau. (WAQ44156)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu crynodeb o amseroedd aros a thargedau ar gyfer triniaeth IVF yng Nghymru fesul Ymddiriedolaeth, ac yn ogystal, darparu gwybodaeth am ddarpariaeth breifat o'r gwasanaeth hwn mewn Ymddiriedolaethau yng Nghymru. (WAQ44157)

**Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau clywedeg yng Ngorllewin Cymru. (WAQ44160) **W**

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerdydd a Dinefwr):** Ymhellach i'r ateb i WAQ43924, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a roddwyd neu yr ystyrir eu rhoi i brif weithredwr Ymddiriedolaeth GIG yr Ysbyty Orthopedeg Brenhinol sydd ar secondiad o fewn eich adran. (WAQ44162)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau orthopedig yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. (WAQ44191)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa brosiectau buddsoddi cyfalaf y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu hariannu yn y GIG yn Ne Caerdydd a Phenarth ers 2003. (WAQ44192)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Faint o arian sydd wedi'i fuddsoddi yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ers 2003 i foderneiddio meddygfeydd ac ysbytai. (WAQ44193)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar gynnydd o ran cyflawni'r targed o sicrhau y gall pobl weld meddyg teulu neu aelod o'r tîm Gofal Sylfaenol o fewn 24 awr yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. (WAQ44194)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A oes unrhyw asesiad wedi'i gynnal o faint o bobl yn Ne Caerdydd a Phenarth sydd wedi elwa ar y polisi presgripsiynau am ddim. (WAQ44195)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A oes unrhyw asesiad wedi'i gynnal o nifer y bobl yn Ne Caerdydd a Phenarth a fydd yn elwa ar ddileu taliadau am ofal cartref ar gyfer pobl anabl. (WAQ44196)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o bobl sy'n cael profion llygaid am ddim ymhlith grwpiau risg uchel yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ44197)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o brofion llygaid am ddim ymhlith grwpiau risg uchel yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ44198)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau adrannau damweiniau ac achosion brys yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. (WAQ44199)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella amseroedd aros ar gyfer triniaeth canser y fron yn Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. (WAQ44200)

**David Melding (Canol De Cymru):** Pryd fydd y Polisi a'r Cynllun Gweithredu Drafft ar Arthritis a Iechyd a Lles Cyhyrysgerbydol ar gyfer Cymru Gyfan yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad. (WAQ44216)

**David Melding (Canol De Cymru):** A fydd y targedau Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid ar ofal arthritis yn seiliedig ar y Polisi a'r Cynllun Gweithredu Drafft ar Arthritis ac Iechyd a Lles Cyhyrysgerbydol ar gyfer Cymru Gyfan. (WAQ44217)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian sydd ar gael i gymdeithasau tai yng Nghymru ar gyfer cynnal a chadw tai cymdeithasol. (WAQ44152)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o arian sydd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer cynnal a chadw tai cymdeithasol. (WAQ44153)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynorthwyo Cyngor Sir Fynwy i sicrhau bod tai cymdeithasol yn cyrraedd safonau ansawdd tai Cymru. (WAQ44154)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o gartrefi yn Ne Caerdydd a Phenarth sydd wedi elwa ar y cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref ers 2003. (WAQ44205)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A all y Gweinidog amlinellu: a) Faint o arian sydd wedi’i fuddsoddi yn Ne Caerdydd a Phenarth drwy’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a; b) darparu rhestr o brosiectau penodol a ariannwyd drwy’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ44207)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o’r holl brosiectau yn Ne Caerdydd a Phenarth a ariennir drwy’r Gronfa Ymladd Troseddau. (WAQ44208)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa brosiectau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi’u hariannu yn Ne Caerdydd a Phenarth er mwyn mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. (WAQ44209)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i wella tai cymdeithasol yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ44210)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i helpu pobl i gael mynediad i’r farchnad dai yn Ne Caerdydd a Phenarth. (WAQ44211)